

DAEARYDDIAETH FFISEGOL

Amser – 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: Atebwch 2 o gwestiynau

1. Disgrifiwch y prif dirffurfiau sy'n cael eu cynhyrchu gan afonydd yn y Deyrnas Gyfunol ac esboniwch y prosesau a gyfrannodd at greu pob un ohonynt.
2. Beth yw prif achosion y newid yn yr hinsawdd ar raddfa amser o ychydig ganrifoedd?
3. Rhwch ddisgrifiad cryno o'r prif nodweddion geomorffolegol yn yr ardal lle'r ydych yn byw.
4. Archwiliwch yr elfennau sy'n rheoli llif rhewlif ac esbonio pam y mae rhewlifoedd gwahanol yn symud ar raddfa wahanol.
5. Amlinellwch a gwerthuswch y peryglon a'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â chloddio am nwy siâl (ffracio).
6. Beth yw'r prif achosion a'r prosesau sy'n peri bod tir yn mynd yn anialdir?
7. Gan gyfeirio at rywogaethau penodol, esboniwch pam y mae planhigion ac anifeiliaid nad ydynt yn gynhenid i Brydain yn cael eu hystyried yn fygythiad i fioamrywiaeth gynhenid.
8. Mae effeithiau'r ffaith fod lefel y môr yn codi yn peri pryder byd-eang. Disgrifiwch y prosesau sydd y tu ôl i gynnydd ewstatig lefel y môr.
9. Rhwch enghraifft o nodwedd dirffurf a geir mewn tirweddau carst sy'n cynnwys calchfaen carbonifferaidd yn bennaf, gan gyfeirio at y prosesau sy'n ei ffurfio.
10. Disgrifiwch yr effeithiau negyddol y mae argaeau mawrion yn eu cael ar yr amgylchedd. Defnyddiwch enghreifftiau i ategu eich ateb.